

CYNIGION PATRYMAU SIFFTIAU

AR GIPOLWG

Ar hyn o bryd rydym yn gweithredu patrymau sifftiau gwahanol mewn gwahanol safleoedd ar gyfer ein cymunedau Nyrso, Bydwreigiaeth a Gweithwyr Cymorth Iechyd. Mae hyn wedi arwain at heriau gweithredol, a theimladau o anghysondeb. Rydym wedi ymrwymo i alinio ein patrymau sifftiau, ac i sicrhau y gall pawb gymryd yr egwylion y mae ganddynt hawl iddynt. Fe wnaethon ni rannu cynnig gwreiddiol (opsiwn 2) ar gyfer aliniad patrwm sifftiau ym mis Mai 2025. Gwrandawon ni ar adborth staff ac Undebau Llafur a datblygu cynnig diwygiedig (opsiwn 8) a rannwyd ym mis Rhagfyr 2025. Mae'r cynnig diwygiedig yn parhau i ddiwallu ein hanghenion gwasanaeth sy'n newid, tra hefyd yn galluogi amser wedi'i ddiogelu ar gyfer dysgu a datblygu, gan warantu egwylion rheolaidd a lleihau amllder wythnosau gwaith hir. Ar 30 Gorffennaf 2026, cymeradwyodd y Bwrdd Iechyd symud ymlaen i'r cam nesaf o ymgynghori ar y ddau opsiwn.

CYNNIG DIWYGIEDIG (OPSIWN 8)

Wythnos 1-	3x sifft 12.5 awr	(2 x egwyl 30 mun)
Wythnos 2-	3x sifft 12.5 awr	(2 x egwyl 30 mun)
Wythnos 3-	3x sifft 12.5 awr	(2 x egwyl 30 mun)
Wythnos 4-	3x sifft 12.5 awr a 1 x sifft 6.3 awr	(2x egwyl 30 munud/ 1 x egwyl 20 munud)
Wythnos 5-	3x sifft 12.5 awr	(2 x egwyl 30 mun)
Wythnos 6 -	3x sifft 12.5 awr	(2 x egwyl 30 mun)
Wythnos 7-	3x sifft 12.5 awr	(2 x egwyl 30 mun)
Wythnos 8 -	4x sifft 12.5 awr	(2 x egwyl 30 mun)

- Yn ogystal â **42 awr o amser DPP wedi'i ddiogelu** bob blwyddyn
- Sifft newydd 6.3 awr (6 awr, 20 munud), i gynnwys **egwyl 20 munud ac amser trosglwyddo gofal rhwng sifftiau pwrpasol**
- Llai o wythnosau yn gofyn am bedair sifft hir - - **cydbwysedd gwaith-bywyd gwell**
- **Egwylion rheolaidd, mynych** wedi'u cynnwys
- Arbedion is, ond **cynaliadwyedd mwy cytbwys**

TROSOLWG LEFEL UCHEL O'R CYNNIG DIWYGIEDIG (OPSIWN 8)

	Patrwm sifft 'CT blaenorol'	Patrwm sifft 'YTC'
Patrwm sifft presennol	• 7.00am/pm - 7.30pm/am (12.5 awr) • 3 x sifft 12.5 awr yr wythnos, pob un gyda 1 x 30 munud o egwyl di-dâl. • Sifft gwneud iawn 6 awr bob 4 wythnos.	• 7.00am/pm - 7.30pm/am (12.5 awr) • 3 x sifft 12.5 awr yr wythnos, pob un gyda 2 egwyl ddi-dâl o 30 munud. • Sifft gwneud iawn 12.5 awr bob 4 wythnos.
Trosolwg o gynnis diwygiedig (Opsiw 8)	• Gweithio sifft gwneud iawn 12.5 awr (yn lle sifft 6 awr) unwaith bob 8 wythnos • Yn ogystal â 42 awr o DPP wedi'i ddiogelu fesul FTE • 2 x egwyl gorffwys 30 munud wedi'u cynnwys mewn sifftiau 12.5 awr • Egwyl orffwys 20 munud ac amser trosglwyddo gofal rhwng sifftiau pwrpasol wedi'i gynnwys mewn sifftiau 6.3 awr	• Gweithio sifft fyrrach o 6.3 awr (yn lle sifft 12.5 awr) unwaith bob 8 wythnos • Yn ogystal â 42 awr o DPP wedi'i ddiogelu fesul FTE • Cadw 2 x egwyl gorffwys 30 munud ym mhob sifft hir • Egwyl orffwys 20 munud ac amser trosglwyddo gofal rhwng sifftiau pwrpasol wedi'i gynnwys mewn sifftiau 6.3 awr

Sylwch: Nid yw hyn yn golygu unrhyw newidiadau i gyflog. Mae oriau cytundebol yn aros yr un fath – dim ond sut mae oriau'n cael eu trefnu ar draws cylch y rota y byddai'r cynnig yn ei newid, nid faint o oriau sy'n cael eu talu.

CAMAU NESAF

- Bydd **ymgyngoriad unigol** yn cychwyn ar **opsiwn 2** (patrwm sifftiau YTC) ac **opsiwn 8** o fis Awst 2026.
- Bydd ymgynghori'n cynnwys **ymgysylltu'n uniongyrchol â staff sy'n cael ei effeithio** i'ch helpu i ddeall yr opsiynau arfaethedig. Bydd hyn yn cynnwys sesiynau briffio grŵp a sgysiau unigol.
- Bydd yr holl wybodaeth ategol ar gael drwy'r **Ganolfan Ymgynghori Patrymau Sifftiau**
- **Nid oes penderfyniad terfynol wedi'i wneud.** Rydyn ni'n gwybod bod egwylion gorffwys a threfniadau sifftiau yn effeithio ar eich bywydau, eich cyfrifoldebau gofalu a'ch lles. Bydd eich adborth yn helpu i gefnogi gwneud penderfyniadau teg a chytbwys cyn gwneud unrhyw argymhelliad.
- Ar ôl i'r ymgynghoriad unigol ddod i ben, byddwn yn dychwelyd at y Bwrdd i drafod ymhellach y camau nesaf.
- **Diolch am eich ymgysylltiad**

